# FURTHER INFORMATION

**Llyfryddiaeth Ddetholedig**


**Mainstreaming Equality: the things you really need to know, but have been afraid to ask…**
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal,
Medi 2003
I'w ddadlwytho o www.eoc.org.uk

Diane Elson
**Integrating Gender Issues into National Budgetary Policies and Procedures: Some Policy Options**
Journal of International Development,
Rhifyn 10 (pp929-941) 1998

Debbie Budlender and Rhonda Sharp
**How to do a gender-sensitive budget analysis: contemporary research and practice**
Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ac Agenda Awstralia ar gyfer Datblygiad Rhyngwladol, 1998

R. Fitzgerald
**Toolkit for Mainstreaming Equal Opportunities for Women and Men into the Structural Fund Programmes in Scotland**
Paratowyd ar gyfer Gweithrediaeth yr Alban a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, 1999

S. Swann
**European Equality Partnership Equal Opportunities Guidelines for European Programme in Wales**
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru,
Rhagfyr 2000

S. Swann
**European Equality Partnership Applying for European Structural Funds in Wales, Equal Opportunities Additional Guidance for Applicants and Assessors**
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Mai 2003

Ulrika Lorentzi and Helen Lundkvist
**Just Progress. Applying Gender Mainstreaming in Sweden**
Fritzes Offentliga Publikationer, 2001


**Cysylltiadau gwefannau defnyddiol**

**The Women's Budget Group**
www.wbg.org.uk

**The Scottish Women's Budget Group**
www.engender.org.uk/budget

**Enghreifftiau o ymarfer rhyngwladol a chysylltiadau pellach**
http://www.genie.ids.ac.uk/search/results.cfm

**Dulliau Cyllidebu ar sail Rhyw:**
http://www.thecommonwealth.org/gender/htm/publications/gms_pdf/Brochur



Wales Gender Budget Group
Grwp Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru

# BETH YW CYLLIDEBU AR SAIL RHYW?

# GRŴP CYLLIDEBU AR SAIL RHYW CYMRU

## Aelodaeth Grŵp Llywio

**Sian Swann**
**Chwarae Teg**
Swyddfa Ranbarthol
Canolbarth a Gorllewin Cymru
37a Heol y Brenin
Caerfyrddin SA31 1BS
**Ffôn 01267 232434**
**Ebost sian.swann@chwaraeteg.com**

**Adele Baumgardt**
**Comisiwn Cyfle Cyfartal**
Tŷ Windsor
Lôn Windsor
Caerdydd CF10 3GE
**Ffôn 029 2034 3552**
**Ebost adele.baumgardt@eoc.org.uk**

**Jo Salmon**
**Undeb Cenedlaethol**
**Myfyrwyr Cymru**
Tŷ Windsor
Lôn Windsor
Caerdydd CF10 3GE
**Ffôn 029 2037 5980**
**Ebost jo.salmon@nus-wales.org.uk**

**Helen Buhaenko**
**Oxfam Cymru**
Adeiladau'r Farchnad
5-7 Heol yr Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
**Ffôn 029 2080 3293**
**Ebost hbuhaenko@oxfam.org.uk**

**Mary Slater**
**Clymblaid Genedlaethol**
**Menywod Cymru**
C/o Chwarae Teg
Anchor Court
Ffordd Keen
Caerdydd CF24 5JW
**Ffôn 029 2047 8919**
**Ebost mary.slater@chwaraeteg.com**

## Cynnwys

Beth yw cyllidebu ar sail rhyw? 1

Enghreifftiau o Gyllidebu ar sail Rhyw ar Waith 2
- Trafnidiaeth 2
- Gofal Iechyd 2
- Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus 3
- Chwaraeon 3

Cyllideb ar sail rhyw 4
- Polisi 4
- Yr Achos Economaidd 5

Pa wahaniaeth wnaiff hyn? 6
- Sut mae mynd ati? 6

Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru 7

Llyfryddiaeth Ddetholedig 8

Cysylltiadau gwefannau defnyddiol 8

# BETH YW CYLLIDEBU AR SAIL RHYW?

**Defnyddiwyd Cyllidebu ar sail Rhyw fel dull o ddadansoddi cyllidebau'r llywodraeth i sefydlu sut mae dulliau trethu a gwariant yn effeithio'n wahanol ar ddynion a menywod, ond gellir ei ddefnyddio gyda phob math o gyllid. Mae'r broses yn cael ei defnyddio eisoes ym mhob cwr o'r byd. Gall fod yn broses syml, yr hyn sydd angen ei wneud yw holi'r cwestiynau iawn!**

Mae cyllidebau o'r pwys mwyaf gan eu bod yn adlewyrchu dewisiadau gwario llywodraeth neu sefydliad i gyflawni amcanion cymdeithasol ac economaidd. Mae Cyllidebu ar sail Rhyw yn un o'r dulliau a nodir i brif ffrydio cydraddoldeb. Nod prif ffrydio yw ychwanegu ystyriaethau cydraddoldeb at bob cam o weithgareddau a strategaethau.

Fe ddylai'r rhan fwyaf o fentrau polisi yng Nghymru eisoes gynnwys yr egwyddor o hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru yn Erthygl 120 h.y. gwneud trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu gweithredu yn unol â'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

Rhagdybir bod y mwyafrif o gyllidebau a mentrau'n effeithio ar bawb i'r un graddau fwy neu lai i fodloni buddiannau a gofynion y cyhoedd, ac y gellid eu disgrifio fel rhai diduedd o ran rhyw.

Er hynny, efallai fod yr hyn sy'n 'ddiduedd o ran rhyw' ar yr olwg gyntaf - sydd i fod i effeithio ar ddynion a menywod yn gyfartal - yn 'ddall i ddimensiwn rhyw' mewn gwirionedd. Hynny yw, efallai fod effaith y polisi ar wariant cyllideb mewn gwirionedd yn effeithio'n dra gwahanol ar un rhyw o gymharu â'r llall.

Nid paratoi cyllideb ar wahân i ddynion a menywod yw nod cyllidebu ar sail rhyw, ond dadansoddi gwariant neu ddyrannu adnoddau o safbwynt rhyw. Mae hyn yn nodi effaith a goblygiadau cyllidebau a pholisïau ar y ddau ryw.

Gellir disgrifio'r dull o gyllidebu ar sail rhyw fel yr arferiad o wisgo sbectol, fel modd o fwrw golwg well ar y prosesau - a gall fod yn effeithiol yn ystod unrhyw gam o'r gwaith o brosesu, yn cynnwys cynllunio, pennu amcanion, archwilio neu werthuso cyllideb.

**Trafnidiaeth**
Mae polisi trafnidiaeth lle nad oes rhwystr i unrhyw grŵp ddefnyddio'r ffyrdd, y trenau, y bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus arall - ymddangos yn ddiduedd o ran rhyw ar yr wyneb. Gall pawb deithio arnynt. Er hynny, efallai fod cynllun y polisi, a phwy'n hollol sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn dangos rhagfarn ar sail rhyw. Er enghraifft:

- *Roedd gan tua 71% o oedolion ym Mhrydain drwydded yrru lawn ym 1999/2001 ond roedd yna lawer o wahaniaethau rhwng y ddau ryw: roedd gan 82% o ddynion drwydded lawn o gymharu â 60% o fenywod. Mae gwariant y llywodraeth ar drafnidiaeth yn dueddol o ffafrio ffyrdd.
- *Roedd 73% o ddynion ym Mhrydain yn teithio i'r gwaith mewn car yn 2001, o gymharu â 66% o fenywod.
  Mae menywod yn fwy na dwywaith mwy tebygol o deithio i'r gwaith ar y bws (11% o fenywod, 5% o ddynion). Dim ond 22% o ddynion oedd yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu â 32% o fenywod.
  *Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol - Trafnidiaeth 2000*

Cymhorthdal i fysiau yw'r ddarpariaeth sy'n derbyn y lleiaf o arian ym maes trafnidiaeth, felly nid yw anghenion menywod yn cael eu diwallu'n llawn. Mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o fysiau'n cael eu darparu yn ystod yr oriau teithio prysuraf i gludo gweithwyr i'r gweithle erbyn 9 o'r gloch y bore. Ond mae menywod yn fwy tebygol o weithio oriau hyblyg neu ran-amser ac efallai angen mynd â'u plant i feithrinfeydd ac ati cyn mynd i'r gwaith. Felly fe allan nhw fod dan anfantais gyda pholisi o'r fath. Dangosodd yr astudiaeth y cafwyd y wybodaeth hon ganddi nad oedd dynion yn defnyddio'r gwasanaethau hyn chwaith.

O ganlyniad byddai dull sy'n defnyddio cyllidebu ar sail rhyw yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr y gwasanaeth am y ffordd y gallent gynyddu'r defnydd o'r gwasanaeth yn gyffredinol gan ddynion a menywod.

**Gofal Iechyd**
Mae gwahaniaethau biolegol neu rywiol rhwng dynion a menywod yn effeithio ar eu hangen am ofal iechyd. Comisiynodd y CCC ymchwil ar ryw ac iechyd a ddangosodd bwysigrwydd deall materion sy'n ymwneud â rhyw a chysylltu'r rhain â dyrannu adnoddau. Mae gallu atgenhedlol menywod yn rhoi 'anghenion arbennig' iddynt o ran rheoli ffrwythlondeb, beichiogrwydd a geni plant. Ond mae yna dystiolaeth gynyddol hefyd i ddangos bod gwahaniaethau biolegol yn mynd llawer ymhellach na'r system atgenhedlu gydag amrywiadau genetaidd, hormonaidd a metabolig yn effeithio ar batrymau clefyd y galon, heintiadau ac amrywiaeth o broblemau hunan-imiwn mewn dynion a menywod. Mae iechyd hefyd yn cael ei lywio gan wahaniaethau cymdeithasol. Mae gwahaniaethau yn ffordd o fyw ac amodau gwaith dynion a menywod a'u gallu i gael amrywiaeth eang o adnoddau'n eu rhoi mewn risg gwahanol o ddatblygu rhai problemau iechyd, tra yn eu gwarchod rhag datblygu eraill. Mae rhyw hefyd yn dylanwadu ar brofiadau dynion a menywod sy'n defnyddio cyfleusterau gofal iechyd. Er mwyn nodi'r materion rhyw a chysylltu'r amcanion polisi a dyrannu adnoddau, mae Senedd yr Alban yn cynnal cynllun peilot ar ddadansoddi cyllideb ar sail rhyw mewn perthynas â phrosiect ar roi'r gorau i ysmygu gan yr Adran Iechyd.0



**Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus**
Yn Sweden cyflwynwyd dull cyllidebu ar sail rhyw i'r gwasanaethau ambiwlans. Tybiwyd mai dull o ddarparu gwasanaeth diduedd o ran rhyw oedd hyn yn y lle cyntaf. Byddai pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn derbyn yr un math o driniaeth a gofal. Astudiwyd y prosiect o bob ongl - pwy ffoniodd am ambiwlans, pa mor gyflym gyrhaeddodd yr ambiwlans, a sut driniaeth gafodd y claf. Yn rhyfeddol, roedd y canlyniadau'n dangos bod mwy o fenywod na dynion wedi ffonio am ambiwlans ond bod llawer mwy o ddynion yn cael eu cludo i'r ysbyty'n gyflymach na'r menywod. Codwyd cwestiynau pellach wedyn - a yw dynion a menywod yn cael eu trin yn wahanol neu a yw dynion angen mwy o driniaeth frys? Roedd yr astudiaeth hefyd yn dangos bod dynion a menywod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol. Roedd menywod yn credu bod staff ambiwlans yn gyfeillgar ond na chawson nhw ddigon o gymorth i leddfu poen tra'r oedd dynion yn credu fel arall. Unwaith eto, roedd hi'n amlwg bod dynion a menywod yn cael gwasanaeth gwahanol. Mae'r astudiaeth yn parhau ac wedi codi materion ymwybyddiaeth a chodi cwestiynau ynghylch goblygiadau cyllidebol mewn maes lle nad oedd neb yn poeni am faterion ar sail rhyw cyn hyn.
*Just Progress. Applying Gender Mainstreaming in Sweden (2001)*

All people were to be dealt with on equal terms, to be given the same

**Chwaraeon**
Mae llawer o wledydd wedi cynnal gwaith cyllidebu ar sail rhyw ym maes cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Yn Awstralia, sy'n canolbwyntio ar y cysylltiad amlwg ag iechyd a lles, maen nhw wedi cychwyn gyda'r rhagdybiaeth bod y gwasanaethau, megis canolfannau hamdden, yn ddiduedd o ran rhyw. Buan y dangosodd yr ystadegau bod gwahaniaethau mawr rhwng dynion a menywod a bechgyn a merched sy'n defnyddio'r cyfleusterau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Cafodd y rhesymau eu gwerthuso a'u categoreiddio, ac ystyriwyd materion ariannol. Cymharwyd faint o arian sy'n cael ei wario ar gynnal a chadw cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio gan ddynion yn bennaf a'r rhai mae merched yn eu defnyddio. (Fel cynnal a chadw cae pêl-droed o gymharu â neuadd chwaraeon). Roedd merched yn nodi rhesymau megis prinder amser, costau, gofal plant a phroblemau teithio dros beidio â defnyddio'r cyfleusterau hamdden hyn mor aml â dynion. Roedd rhai canolfannau hamdden yn cynnig gwasanaethau smwddio, gwasanaethau cludiant a gofal plant yn gyfnewid am wersi erobig. Roedd hyn oll yn cael dylanwad uniongyrchol ar wario a dyrannu'r gyllideb, ac mae'r effaith o ran cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn dal i gael ei werthuso.

Yng Nghymru, mae'r CCC yn gweithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru ar ymarfer cyllidebu ar sail rhyw i ymchwilio i'r defnydd o ganolfannau hamdden, a fydd yn galluogi gwell cynllunio, marchnata a defnydd o adnoddau.

**Pam ddylwn i ystyried dull sy'n seiliedig ar gyllidebu ar sail rhyw?**

**Mae'n ffordd o fesur tegwch.**
Diwedd y gân yw'r geiniog!

Does dim dwywaith fod materion ariannu a dyrannu adnoddau yn hoelio sylw pobl. Er hynny, mae manteision amlwg eraill dros fabwysiadu'r dull yma. Fe all wneud cyfraniad mawr tuag at greu economi a chymdeithas mwy cyfartal yng Nghymru, sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo cyfraniad unigolion yn well ac sy'n ein gwneud ni'n genedl mwy cystadleuol a llewyrchus.

Bydd yr arfer o gynhyrchu cyllideb ar sail rhyw yn helpu i olrhain a nodi'n glir y berthynas rhwng amcanion polisi a dyrannu adnoddau. Gall hefyd ddangos rhagdybiaethau a rhagfarn a allai fod yn berthnasol sy'n cadarnhau steroteipiau rhyw yn hytrach na'u herio.

**Polisi**
Gall cyllidebu ar sail rhyw lywio polisïau mewn modd newydd, gan sicrhau ein bod yn rhannu adnoddau'n fwy cyfartal, a gall fod yn ddull effeithiol o drawsnewid ein ffordd o feddwl am yr hyn sy'n 'normal'.

Nid yw cymdeithas lle mae dynion yn gweithio o 9 tan 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda'r un cyflogwr am 40 mlynedd, ble mae menywod yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn aros gartref i fagu teulu a chadw tŷ; a lle mae'r cwpl yn briod am oes, bellach yn 'norm' realistig. Er hynny, mae llawer o'n polisïau a'n hisadeileddau yn seiliedig ar norm o'r fath. Wrth i batrymau gwaith a stereoteipiau dynion a menywod newid yng Nghymru, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y polisïau a'r adnoddau'n bodloni eu hanghenion newydd yn effeithiol.

Nid yw cymdeithas lle mae dynion yn gweithio o 9 tan 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda'r un cyflogwr am 40 mlynedd ...bellach yn 'norm' realistig



**Yr Achos Economaidd**
Yng Nghymru, mae angen annog cymaint o bobl â phosib i greu cyfoeth i'r wlad ac incwm dda iddynt eu hunain. Golyga hyn fod yn rhaid i fentrau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth y DU helpu economi Cymru gael eu targedu'n gywir a'u gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, gall cynlluniau bwriad da fethu os nad ystyrir materion rhyw.

Er enghraifft, yn gyffredinol, mae incwm oes menywod yn llai nag incwm dynion. Mae hyn oherwydd y cyfnod mae menywod yn ei dreulio y tu allan i'r farchnad lafur a'r gwahaniaethu yn sgîl hynny. Eto, mae menywod ar eu colled o ran amser o gymharu â dynion. Maent yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith gofalu di-dâl gan gynnwys gofalu am blant a'r henoed, cyfrifoldebau iechyd a gwaith tŷ, ac yn dibynnu mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus gan nad oes ganddynt gar eu hunain.

Mae yna hefyd brinder cyngor ynghylch effaith penderfyniadau cylch bywyd. Pryd oedd y tro diwethaf i chi glywed am fenywod yn bwriadu cymryd gwyliau neu seibiant o'r farchnad waith, yn derbyn cyngor am beth fyddai effaith ariannol seibiant o'r fath yn y tymor hir, gan gynnwys y goblygiadau o ran pensiwn.

Ychydig o gyngor mae dyn sydd ar fin bod yn dad yn ei gael ar hwyluso'r broses o gymryd rhan lawn ym mywyd y babi, neu i gynlluniau darpariaethau pensiwn hirdymor pe byddai am gymryd seibiant gyrfa. Mae'n gwneud synnwyr busnes da i godi ymwybyddiaeth unigolion a sefydliadau o effaith eu penderfyniadau ar eu sefyllfa ariannol.

Efallai byddai polisïau economaidd sydd â'r nod o ddenu pobl yn ôl i weithio yn galluogi cyfran fwy o fenywod na dynion i ymuno neu ailymuno â'r farchnad waith. Ar yr un pryd, fodd bynnag, fe allai'r polisïau hyn beri i fenywod fod ar eu colled o ran amser. Nid yw'r polisïau hyn yn mynd i'r afael ag effeithiau anghyfartal costau cynyddol gofal plant a'r henoed, na holl ddyletswyddau beichus y cartref oni bai fod rhywun yn edrych ar bethau o safbwynt y ddau ryw. Mae'n rhaid cael dulliau effeithiol o fynd i'r afael â holl feichiau dyletswyddau gofal a gwaith di-dâl, wrth wraidd polisïau o'r fath. Gellir lleihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau o fynd i'r afael o'r newydd â swyddogaethau tadau a gofalu am rywun heb dâl. Fe allai hefyd helpu i fynd i'r afael â blaenoriaethau, rhagdybiaethau a sbardunau busnes o ran costau mamolaeth yn ogystal â helpu i herio rhagdybiaethau ar sail rhyw ac annog mwy o fenywod i fentro.

# PA WAHANIAETH WNAIFF HYN?

**Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn apelio at y rhai sy'n gwneud polisïau. Mae ganddo gysylltiadau amlwg â llewyrch economaidd, lleihau tlodi (tlodi plant yn enwedig), mae'n hwb i fynd i'r afael at allgáu cymdeithasol ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd. Mae denu rhagor o fenywod i fyd gwaith yn hwb i gynyddu cynhyrchiant; ailunioni'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran gofalu am blant, chwalu'r rhagdybiaethau ynglŷn â phwy ddylai wneud swyddi penodol; a sicrhau bod menywod yn cael swyddi gwell am gyflog gwell - oll yn deg a hefyd yn sicrhau darpariaeth pensiwn. Os yw dynion a menywod yn gallu manteisio ar addysg a gwasanaethau gofal plant yn gyfartal, a bod cynrychiolaeth gyfartal ohonynt ar gyrff sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau - yna bydd y penderfyniadau hynny nid yn unig yn fwy cynrychioliadol ond byddant hefyd yn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithas yn llawnach.**

Mae dilyn trywydd cyllidebu ar sail rhyw yn codi cwestiynau sylfaenol ynghylch gofynion y defnyddiwr neu'r sawl sy'n derbyn gwasanaethau, ac yn helpu darparwyr i fodloni eu targedau ansoddol.

Fe allai'r dull hwn fod o gymorth i osgoi economïau ffug. Fe allai helpu i fynd i'r afael â stereoteipiau rhyw ynghyd â thaclo'r holl arferiad o weithio oriau hir sy'n fwrn ar ddynion yn bennaf ar hyn o bryd. Fe allai hefyd helpu i fynd i'r afael â'n syniadau ni o 'norm' bywyd, a chynyddu dewisiadau'r unigolyn. Gallwn hefyd fynd i'r afael â phatrymau gwaith hen ffasiwn.

Tra'r oedd ymdrechion blaenorol yn ceisio mynd i'r afael â hawliau ac anghenion menywod mewn rhaglenni datblygu arbennig ac ar wahân, mae dull cyllidebu ar sail rhyw yn galw am ystyried cyrsiau bywyd dynion a menywod yn y camau cynnar ac yn pwysleisio'r angen i fonitro'r effeithiau gwahanol mae polisïau a rhaglenni'n eu cael ar ddynion a menywod, bechgyn a merched. Mae'r newid yn y pwyslais yn cydnabod nad oes modd trafod statws menywod fel mater ar wahân; dim ond trwy ystyried statws y ddau ryw mae modd gwneud hynny. Mae hynny i bob pwrpas yn gwella'r economi a'r gymdeithas er lles pawb yng Nghymru.

**Sut mae mynd ati?**

Rydym yn gobeithio fod yr hyn a drafodir uchod yn dangos nad oes rhaid i chi fod yn economydd neu'n gyfrifydd i ymdrin â chyllidebu ar sail rhyw, neu i weld effaith a goblygiadau technegau o'r fath. Er bod technegau cyllidebu ar sail rhyw yn gallu bod yn gymhleth ac yn dechnegol, mae'r egwyddorion yn gallu bod yn syml ac yn ddigon cyffredinol. Nod y grŵp cyllidebu ar sail rhyw yw dod ag arbenigwyr cydraddoldeb rhywiol ac arbenigwyr ariannol ac economaidd ynghyd mewn modd a fydd o les i bawb.



# GRŴP CYLLIDEBU AR SAIL RHYW CYMRU

**Rhwydwaith annibynnol yw Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru (GCRhC) sy'n cyfuno pobl o sefydliadau sydd â'r un nod o hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol trwy gyfrwng y broses gyllidebu ar sail rhyw.**

Nod GCRhC yw hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru trwy ddefnyddio technegau cyllidebu ar sail rhyw yn effeithiol mewn unrhyw brosesau a phenderfyniadau'n ymwneud â pholisïau. Mae GCRhC hefyd yn cydweithio'n agos â grwpiau cyllidebu ar sail rhyw yn yr Alban a Lloegr, yn cynnwys Grŵp Cyllidebu Menywod sy'n gweithio ar lefel y DU ac yn rhyngwladol, ac mae wedi meithrin llawer o gysylltiadau â'r rhai sy'n pennu polisïau yn y Trysorlys. Felly, maen nhw'n gallu bod yn rhagweithiol ar faterion megis darparu gofal plant, credydau treth, cynhyrchiant a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ar lefel wladol. Maen nhw'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau polisi o bwys megis adolygiad o wariant dros 5-mlynedd a'r gyllideb flynyddol.

Mae gan GCRhC gyfle unigryw i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yng Nghymru, yn rhannol oherwydd ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i gyfle cyfartal (trwy Erthygl 120).

Mae'r gorchymyn cyfreithiol hwn yn unigryw ac mae eisoes wedi sbarduno sawl proses o weithredu rhaglenni cydraddoldeb yn ymarferol ac wedi llywio llawer o bolisïau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yma yng Nghymru. Mae'r agwedd hon at y newid diwylliannol hwn yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd newydd a chyffrous i'r Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw yng Nghymru gymryd rhan mewn strategaethau economaidd a chreu polisi yn y wlad.

Gyda chymaint o waith dylanwadol eisoes yn cael ei gyflawni ym maes cyllidebu ar sail rhyw ar y lefel uchaf yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, nid ailadrodd hynny yw ein nod. Yn hytrach, ein bwriad yw meithrin arbenigedd ar sut y gallai'r dull hwn ddylanwadu ar feysydd allweddol sydd wedi'u datganoli o ran economi, polisïau a demograffeg Cymru.

Mae'r GCRhC hefyd yn bwriadu cadw llyfrgell o'r holl wybodaeth a'r dogfennau perthnasol sydd ar gael i roi gwybodaeth ac arweiniad mwy manwl a thechnegol ar fater cyllidebu ar sail rhyw - mwy o ddarllen defnyddiol.

I gael rhagor o wybodaeth am Grŵp Cyllidebu ar sail Rhyw Cymru cysylltwch ag Adele Baumgardt, d/o Comisiwn Cyfle Cyfartal, Cymru.  Ffôn: 029 20 343552.